

## Y CYNGOR

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.10 ar 22 MEDI 2020, trwy Zoom.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair); y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Mr George Ashworth; Ms Samantha Blackie; Ms Kate Eden; Ms Meri Huws; Mr Morgan Lewis, Llywydd UMCA; Dr Louise Marshall; Mr Nathaniel Pidcock, Llywydd UMaber; Ms Rhuanedd Richards; Ms Fiona Sharp; Mr Mark Tweed (tan gofnod 8.4); Ms Kath Williams; Dr William Williams; Yr Athro Syr Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; Dr Rebecca Edwards (tan gofnod 8.3); Mr Owen Evans; Ms Sharron Lusher; Mr David Moyle; Yr Athro Qiang Shen; a Ms Jacqui Weatherburn.

Nid oedd ymddiheuriadau am absenoldeb wedi dod i law.

### 1. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

#### 1. Croeso

1. Croesawyd y canlynol i'w cyfarfod cyntaf yn aelodau o'r Cyngor:
  1. Kate Eden, Aelod Annibynnol;
  2. Dr Louise Marshall, Aelod o'r Senedd;
  3. Rhuanedd Richards, Aelod Annibynnol; a
  4. Dr William Williams, Aelod Annibynnol.
2. Y rhai a oedd ar hyn o bryd ddim ond yn gwasanaethu ar un o is-bwyllgorau'r Cyngor, a gafodd eu gwahodd i gyfarfod y corff llywodraethu i arsylwi.

#### 2. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Yr Athro Peter Thomas, gynt o'r Adran Hanes a Hanes Cymru;
2. John Meirion Morris, cyn-ddarlithydd yn y Brifysgol a cherflunydd amlwg o Gymru;
3. Dr David Wilman, cyn-Ddarllenydd yn y Gwyddorau Amaethyddol.

#### 3. Diwrnod Strategaeth y Cyngor

1. Cyn cyfarfod ffurfiol y corff llywodraethu roedd y Cyngor wedi cynnal Diwrnod Strategaeth llwyddiannus trwy ddefnyddio llwyfan ar-lein Zoom. Er y byddai wedi

bod yn well i gynnal y Diwrnod Strategaeth wyneb yn wyneb yn y Brifysgol, oherwydd yr amgylchiadau presennol ni fyddai hynny wedi bod yn briodol.

2. Roedd yr Is-Ganghellor wedi cyflwyno diweddariad manwl i'r aelodau yn y Diwrnod Strategaeth, ac felly ni fyddai'n cyflwyno adroddiad pellach i gyfarfod ffurfiol y Cyngor.

#### 4. Cyflwyno gwybodaeth i aelodau

Yn union cyn cyfarfod ffurfiol y Cyngor, roedd y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) wedi rhoi gwybodaeth i aelodau am fater cysylltiedig â Prevent yn ymwneud ag unigolyn sydd bellach yn gyn-fyfyriwr.

#### 5. Arfarniad Blynyddol o Aelodau'r Cyngor

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gadeirydd y Cyngor (COU2021-002).

NODWYD

Yn ystod mis Awst 2020, roedd Cadeirydd y Cyngor wedi cynnal arfarniad blynyddol gyda'r rhai a fyddai'n parhau yn aelodau o'r corff llywodraethu ym mlwyddyn academaidd 2020-21. Roedd yr adroddiad yn crynhoi materion a drafodwyd yn ystod y cyfarfodydd hynny - gan gynnwys y gofynion hyfforddi a datblygu a ganfuwyd, a oedd bellach yn cael sylw.

## 2. **GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Roedd nifer o aelodau'r Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS). Er y byddai'r corff llywodraethu yn ystyried gohebiaeth yn gysylltiedig â'r USS yn ystod y cyfarfod, ni farnwyd bod angen i unrhyw aelod ymesgusodi o'r trafodaethau hynny.

## 3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2020 (COU2021-004).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

## 4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2021-005).

NODWYD

Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

## 5. GOHEBIAETH

### 1. Ymgynghoriad Cyflogwr yr USS

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-006).

NODWYD

1. Ar 28 Awst 2020, lansiodd yr USS Ymgynghoriad Darpariaethau Technegol ar gyfer gwerthusiad y cynllun am 2020. Roedd Universities UK (UUK), sef y corff a enwebwyd yn ffurfiol i gynrychioli cyflogwyr mewn ymgynghoriadau o'r fath, nawr yn gofyn am adborth gan sefydliadau oedd â gweithwyr yn aelodau o'r cynllun.
2. Roedd y Brifysgol yn gweithio i ddatblygu ei hymateb i'r ymgynghoriad erbyn dyddiad cau'r USS ar 30 Hydref 2020. Byddai sesiwn wybodaeth ar yr USS yn cael ei rhoi i aelodau'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (A&Ph) cyn eu cyfarfod ar 12 Tachwedd 2020.

### 2. Llythyr yr UCU i Gadeiryddion mewn ymateb i gyllid Llywodraeth Cymru

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-007).

NODWYD

1. Ar 23 Gorffennaf 2020, derbyniodd Cadeirydd y Cyngor lythyr oddi wrth Margaret Phelan, Swyddog Cymru Undeb y Prifysgolion a Cholegau (UCU). Anfonwyd yr un llythyr at Gadeirydd Cyngor pob prifysgol yng Nghymru. Roedd Cadeirydd y Cyngor wedi rhoi ymateb i'r UCU ar 29 Gorffennaf 2020. Atodwyd copi o'r ddau lythyr i'r adroddiad.
2. Dywedodd yr Is-Ganghellor wrth yr aelodau bod cynrychiolwyr o Weithrediaeth y Brifysgol yn cynnal trafodaethau wythnosol â chynrychiolwyr undebau llafur yn rhan o ymateb y Brifysgol i argyfwng COVID-19.

### 3. Canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2021-008).

NODWYD

Ar 13 Awst 2020, derbyniodd yr Is-Ganghellor lythyr gan Brif Weithredwr CCAUC, Dr David Blaney, yn dweud bod y Cyngor Cyllido'n croesawu cynnydd da parhaus y Brifysgol yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrrwyr (ACF). Atodwyd copi o'r llythyr i'r adroddiad er gwybodaeth.

## 6. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH

## DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2021-009).

## NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r manylion diweddaraf ynghylch iechyd a diogelwch. Bydd adroddiad llawnach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (LI&Ch) ar 12 Tachwedd 2020.
2. Fel y dywedwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, cafodd Cynllun Blynnyddol Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd ei gynhyrchu a'i ddsbarthu i holl aelodau'r Pwyllgor LI&Ch ddiwedd mis Gorffennaf. Dywedodd Samantha Blackie, gan mai hi yw darpar Gadeirydd y Pwyllgor LI&Ch iddi drafod y Cynllun Blynnyddol â Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.

## 7. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

### DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAb) (COU2021-010).

### NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf am ddatblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

## 8. MATERION ARIANNOL

### 1. Cyfrifon Rheoli

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2021-011).

#### NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi ar ffurf naratif y rhagolygon am alldro'r Brifysgol ar ddiwedd Chwarter 4 (31 Gorffennaf 2020).
2. Ystyriwyd yr adroddiad yn fanwl gan yr aelodau, yn enwedig felly'r symudiadau anffafriol ers Chwarter 3. Er bod rhai symudiadau'n gysylltiedig â darpariaethau cyfrifo nad ydynt yn arian parod, roedd y meysydd gweithredol a aeth y tu hwnt i'r cyllidebau y cytunwyd arnynt am y flwyddyn 2019-20 wedi eu nodi a chatau priodol wedi eu rhoi yn eu lle.
3. Mynegodd rhai aelodau eu siom bod yr adroddiad ar ffurf naratif yn bennaf, a gofyn am fwy o ffigurau mewn fersiynau yn y dyfodol. Sicrhawyd y corff llywodraethu gan Gyfarwyddwr Cyllid a'r Gwasanaethau Corfforaethol y byddai adroddiad llawn Chwarter 4 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor A&Ph ar 12 Tachwedd 2020, ynghyd â datganiadau ariannol drafft am y flwyddyn flaenorol. Byddai copi o adroddiad llawn Chwarter 4 yn cael ei anfon i holl aelodau'r Cyngor pe byddai'n barod mewn digon o bryd cyn cyfarfod y Pwyllgor A&Ph (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

2. Incwm Dangosol 2020-21

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2021-028).

NODWYD

1. Ar 10 Gorffennaf 2020, cymeradwyodd y Cyngor gyllideb ofalus am 2020-21, i adlewyrchu'r effeithiau a ragwelid ar y Brifysgol oherwydd Covid-19. Hefyd, roedd cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor wedi'i drefnu ar 27 Awst 2020, rhag ofn y byddai niferoedd myfyrwyr am y flwyddyn 2020-21 yn waeth na'r hyn y cyllidwyd ar ei gyfer. Ni fu angen cynnal y cyfarfod ychwanegol hwnnw.
2. Cyflwynai'r adroddiad incwm dangosol am 2020-21, ac yn ôl y rhagolygon byddai'n uwch na'r hyn y caniatwyd ar ei gyfer yn y gyllideb. Nid oedd Gweithrediaeth y Brifysgol felly'n bwriadu cynnig cyllideb sefydliadol ddiwygiedig, ac yn hytrach byddai'n paratoi adroddiad ar gyfer cylch mis Tachwedd o bwllgorau yn dangos y prif symudiadau o'u cymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd am y flwyddyn. Hefyd, cytunodd Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol y byddai rhagolygon llif arian yn cael eu cyflwyno mewn adroddiadau yn y dyfodol.

3. Benthyciad Tarfu ar Fusnes gan Coronafeirws

DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU2021-012).
2. Penderfyniad drafft y Cyngor i gymeradwyo'r Cytundeb Diwygio ac Ailddatgan a Chytundeb Adnodd CLBILS (*Coronavirus Large Business Interruption Loan Scheme*) (COU2021-029);
3. Y Dystysgrif Benthyciwr CLBILS arfaethedig (COU2021-030);
4. Y Dystysgrif Benthyciwr Adnodd Credyd Cylchdroawl arfaethedig (COU2021-031).

NODWYD

5. Yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, cytunodd yr aelodau mewn egwyddor i gynnydd hyd at £5m mewn benthycia trwy'r Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnesau Mawr yn sgil y Coronafeirws. Yn ôl telerau'r cynllun hwn, byddai Llywodraeth San Steffan yn gwarantu 80% o'r benthyciad ychwanegol. Roedd y Cyngor Cyllido hefyd wedi nodi eu bod yn fodlon i'r Brifysgol ymestyn ei benthycia.
6. Dros yr haf, symudodd trafodaethau yn eu blaen â darparwr cyfredol Adnodd Credyd Cylchdroawl y Brifysgol, ac roedd telerau arfaethedig y benthyciad ychwanegol o dan gynllun CLBILS wedi eu nodi yn yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyllid a'r Gwasanaethau Corfforaethol.
7. Cafodd yr adroddiad ei ystyried a'i drafod gan yr aelodau, yn enwedig yng nghyswllt y cyfamodau yr oedd y benthyciwr yn gofyn amdanynt. Cafodd yr

aelodau eu sicrhau bod y cyfamodau ar gyfer benthycia o dan CLBILS yr un peth â'r rhai eisoes yn eu lle ar gyfer yr Adnodd Credyd Cylchdroawl (CC). Roedd y gofynion yng nghyswllt rhestrau sancsiynau hefyd yn debyg, a byddai adroddiad pellach ar yr agwedd hon yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor A&Ph.

8. Wrth gytuno i fenthycia o dan CLBILS, byddai angen i'r Brifysgol gytuno hefyd i ddiwygio geiriad y cytundeb eisoes yn ei le ar gyfer yr Adnodd CC, i adlewyrchu'r benthyciad CLBILS ychwanegol.

#### **PENDERFYNWYD**

9. Cymeradwyo'r penderfyniad ffurfiol y mae'r benthyciwr yn gofyn amdano, fel y nodir yn y cofnod ar wahân yn yr Atodiad (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

#### **NODYN AR ÔL Y CYFARFOD**

10. *Yn dilyn cyfarfod y Cyngor ar 22 Medi 2020, cytunwyd gyda'r benthyciwr i ryddhau Campws Arloesedd a Menter Aberystwyth (AIEC) Cyf fel parti i gytundeb yr Adnodd Credyd Cylchdroawl. Arweiniodd hyn at yr angen i'r Cyngor gymeradwyo penderfyniad ffurfiol newydd trwy ohebiaeth ar 04 Tachwedd 2020. O ganlyniad, nid yw'r penderfyniad ffurfiol a gytunwyd ar 22 Medi 2020 wedi'i atodi.*

4. Cynllun RE:FIT

#### **DERBYNIWYD**

Adroddiad gan y Cyngorydd Cynaliadwyedd (COU2021-013).

#### **NODWYD**

1. Trwy ohebiaeth ar 21 Awst 2019, roedd aelodau'r Cyngor wedi cytuno mewn egwyddor i ymgymryd â phrosiect o dan gynllun RE:FIT gydag uchafswm o £2filiwn o gyllideb. Ers hynny, yn unol â thelerau'r cynllun a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, roedd cynnig graddfa buddsoddiad wedi'i ddatblygu am gyfres o gamau i leihau costau ynni ac allyriadau carbon yn y Brifysgol.
2. Roedd y camau arfaethedig wedi eu nodi yn adroddiad y Cyngorydd Cynaliadwyedd. Byddai cyfanswm arfaethedig gwerth y prosiect o £2.45m (yn cynnwys TAW) yn cael ei ariannu'n rhannol trwy fenthyciad Salix diwarant, di-log o £1.8m, a fyddai'n cael ei warantu gan Lywodraeth Cymru.
3. Dywedwyd wrth yr aelodau pe byddent yn cytuno i symud ymlaen â'r prosiect a cheisio am fenthyciad Salix, y byddai angen cymeradwyaeth gan y Cyngor Cyllido a chan fenthyciwr Adnodd CC a CLBILS y Brifysgol.

#### **PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo'r prosiect RE:FIT arfaethedig ac, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cyngor Cyllido a benthyciwr y Brifysgol, i wneud cais am fenthyciad Salix (**GWEITHREDU**: Cyngorwr Cynaliadwyedd).
5. Costau Cyfalaf yr Ysgol Filfeddygaeth

## NODWYD

1. Dywedodd y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) wrth yr aelodau bod pob un o'r tendrau a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau ym mis Awst 2020 wedi bod yn uwch na'r gyllideb arfaethedig am y gwaith cyfalaf. Roedd y Brifysgol felly wedi penodi'r contractwr a ffafriwyd, ac roeddent yn trafod â'r contractwr hwnnw i ailbennu gwerth y gwaith cyfalaf arfaethedig fel y gellid ei gyflawni o fewn i'r gyllideb.
2. Disgwylid y byddai gwerth terfynol y gwaith cyfalaf o fewn i drothwy cymeradwy'r Pwyllgor A&Ph. Byddai cynnig terfynol felly yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor A&Ph i'w ystyried ar ôl i'r trafodaethau â'r contractwr a ffafriwyd ddod i ben.

## 9. EITEMAU ER GWYBODAETH

### DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Covid-19: Cofnod penderfyniadau (COU2021-014);
2. Sefyllfa ddiweddaraf prosiect yr Hen Goleg (COU2021-015);
3. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2021-016);
4. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2021-017) a;
5. Adroddiad Blynyddol ar gyfrifoldebau aelodau'r Cyngor (COU2021-018)

### NODWYD

#### 6. Covid-19: Cofnod penderfyniadau

Croesawodd yr aelodau'r adroddiad ar y gwaith sy'n dal i fynd yn ei flaen yn y sefydliad er mwyn ymateb i sefyllfa Covid-19, a chofnodi eu gwerthfawrogiad o'r ffordd mae'r Is-Ganghellor a staff y Brifysgol wedi ymateb mewn cyfnod mor heriol.

7. Cynnwys yr adroddiadau eraill a gyflwynwyd er gwybodaeth.

## 11. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL.

#### 1. Graddau er Anrhydedd

Ni fu'n bosibl i'r Brifysgol gynnal unrhyw seremoni raddio ym mis Gorffennaf 2020 oherwydd argyfwng Covid-19. Byddai Graddau er Anrhydedd y Brifysgol a fyddai wedi eu cyflwyno eleni, yn cael eu rhoi felly yn ystod seremonïau graddio 2021. Oherwydd hyn, ni fydd y Brifysgol yn gwahodd enwebiadau newydd am raddau er anrhydedd yn 2021. Cynhelir y cylch enwebiadau nesaf yn yr hydref 2021.

#### 2. Canolfan y Celfyddydau

Gwnaed difrod i Ganolfan Gelfyddydau yn ystod llifogydd lleol ym mis Awst 2020. Yn anffodus, roedd hyn wedi golygu na fu modd ailagor y Ganolfan i'r cyhoedd hyd yn hyn.